Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder (carchardai oedolion)

o Fedi 2018

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| Diben y llawlyfr arweiniad | 1 |
| Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder (carchardai oedolion) | 1 |
| Cefndir polisi | 1 |
| **Rhan 1: Trefniadau arolygu** | **2** |
| Cyflwyniad | 2 |
| Egwyddorion arolygu | 2 |
| Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr | 2 |
| Disgwyliadau darparwyr | 3 |
| Materion iechyd, diogelwch a lles | 3 |
| Ymateb i honiad ynghylch diogelu | 4 |
| Dull arolygu | 4 |
| Yr Ystafell Arolygu Rithwir | 4 |
| Y tîm arolygu | 4 |
| Cysylltu â’r carchar cyn yr arolygiad | 5 |
| Cynllunio’r arolygiad a pharatoi’r tîm | 6 |
| Yn ystod yr arolygiad | 7 |
| Ar ôl yr arolygiad | 11 |
| Sicrhau ansawdd arolygiadau | 12 |
| **Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd** | **12** |
| Y Fframwaith Arolygu Cyffredin | 19 |
| Disgrifwyr barn | 20 |
| Argymhellion | 20 |
| Ffocws thematig | 21 |

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau dysgu yn y sector cyfiawnder (carchardai oedolion) o Orffennaf 2017 ymlaen. Mae'n amlinellu'r trefniadau arolygu ar gyfer dysgu yn y sector cyfiawnder (carchardai oedolion) ac yn cynnig arweiniad i arolygwyr ar lunio barnau arolygu.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig mewn perthynas â safonau, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, bydd yr arolygiaeth yn trefnu cynnal gweithgarwch dilynol yn y carchar i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar y gwahanol fathau o weithgarwch dilynol ar gael ar wefan Estyn.

Gall carchardai ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu i gyflawni eu hunanarfarniad eu hunain.

Mae rhagor o wybodaeth ac arweiniad am arolygu carchardai ar wefan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru

Dylai arolygwyr fod yn gyfarwydd ag arweiniad arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sydd wedi'i gynnwys yn

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: Meini prawf ar gyfer asesu triniaeth carcharorion ac amodau mewn carchardai; ac**

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: Meini prawf ar gyfer asesu triniaeth plant a phobl ifanc ac amodau mewn carchardai**

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu dysgu yn y sector cyfiawnder (carchardai oedolion)

Nid arolygiad Estyn yw arolygiad o Garchar Ei Mawrhydi. Bydd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn gwahodd tîm o Estyn i gymryd rhan mewn ymarfer, y gall Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ei gyhoeddi i'r carchar neu ei ddatgan yn gyhoeddus, neu beidio. Caiff rhai arolygiadau eu galw gyda bach iawn o rybudd os bydd data Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn amlygu risgiau y mae'n dymuno'u harchwilio. Yn ystod yr arolygiadau hyn, bydd Estyn yn gweithio ar gais Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac yn llunio barnau ysgrifenedig yn ôl manyleb yr Arolygiaeth honno.

## Cefndir polisi

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisïau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r arolygiad. Fodd bynnag, mae'r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli cyfraniad Estyn at yr arolygiad ac am lunio'r rhan o'r adroddiad arolygu y mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gofyn amdani. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

## Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pob carcharor
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys y carchar yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys defnyddio enwebeion
- yn defnyddio adroddiad hunanarfarnu'r carchar fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi meysydd allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd canfyddiadau'r adroddiad
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y carchar
- yn cael safbwynt y carcharorion a safbwynt rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi carchardai sydd ag agweddau pwysig neu wendidau i'w gwella

## Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn arfarnu gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y carcharorion
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r

arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran cynorthwyo pob carcharor i gyflawni safonau uchel a lefelau cadarn uchel o les.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o'r arolygiad o'r carchar.

## Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso eu codau ymddygiad eu hunain wrth ddelio gydag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i arfarnu'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am eu darpariaeth
- cynnal trafodaethau pwrpasol gydag arolygwyr
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, carcharorion a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu'r uwch arweinydd
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch yr arolygwyr tra byddant ar safle'r carchar
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai carchardai adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb carchardai yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

## Materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn eu barn nhw yn berygl gwirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu garcharorion, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y carchar ac arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar risgiau amlwg yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os tynnir sylw arolygydd at honiad/amheuaeth sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai roi gwybod i arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a dilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol polisi a gweithdrefnau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer diogelu.

## Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw arfarniad y carchar o'i pherfformiad ei hun, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi arfarniad y carchar ei hun o'i waith.

Y cynnydd a wna carcharorion o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg y maent wedi'i chael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y carchar. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion dysgu carcharorion, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth yn y carchar ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Gall nifer yr arolygwyr amrywio yn ôl maint y carchar.

Bydd pob adroddiad arolygu yn ymdrin â meysydd fframwaith arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sydd wedi'u dirprwyo i dîm Estyn.

Yn ogystal â chyfraniad ysgrifenedig Estyn at strwythur adrodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn gofyn i Estyn rannu graddau cyffredinol ar gyfer pob un o Feysydd Arolygu FfAC Estyn.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i garchardai lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall carchardai weld arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad.

## Y tîm arolygu

Bydd tîm arolygu Estyn yn cael ei arwain gan arolygydd cofnodol a fydd yn adrodd i arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Bydd tîm Estyn yn cynnwys aelodau tîm eraill sy'n cael eu dewis o blith AEM, arolygwyr ychwanegol neu arolygwyr cymheiriaid. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gontract i'r arolygiaeth.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli tîm arolygu Estyn ac yn cydweithio â thîm Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r enwebai.

Byddwn yn gwahodd carchardai i ddewis uwch aelod o staff, o’r enw’r enwebai, i weithio gyda’r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae’r rhan fwyaf o garchardai yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw’n ofynnol. Dylai’r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y carchar a’r tîm arolygu.

## Cysylltu â’r carchar cyn yr arolygiad

Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhoi gwybod i Estyn am arolygiad sydd ar ddod, a ph’un a fydd yr arolygiad yn cael ei gyhoeddi (bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn hysbysu’r carchar) neu ddim yn cael ei gyhoeddi (ni fydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn rhoi gwybod i’r carchar tan wythnos ymlaen llaw, pan fydd tîm bach o ymchwilwyr yn ymweld â’r carchar i gynnal arolygon o farn carcharorion a sefydlu amserlen sylfaenol). Os na fydd yr arolygiad yn cael ei gyhoeddi, ni ddylai’r cofnod yn rhaglen waith Estyn gynnwys enw’r carchar sydd i’w arolygu.

Os bydd yn arolygiad **yn cael ei gyhoeddi**, gall yr arolygydd cofnodol gysylltu â’r Pennaeth Dysgu yn y carchar ar ôl y dyddiad cyhoeddi.

Os yw’n arolygiad **nad yw’n cael ei gyhoeddi**, rhaid i’r arolygydd cofnodol ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gytuno pryd y gall Estyn gysylltu â Phennaeth Dysgu’r carchar. Ni chawn gysylltu cyn y dyddiad hwnnw.

Dylai’r arolygydd cofnodol drefnu bod YAR ddienw yn cael ei sefydlu fel y gall y carchar lanlwytho unrhyw ddogfennau y mae’n dymuno’u lanlwytho. Nid oes offeryn coladu ar-lein ar gyfer y sector hwn gan nad yw’n defnyddio templed adrodd y FfAC.

Dylai ‘Ardal y Darparwr’ yn yr YAR gynnwys:

- Tystiolaeth sydd wedi’i lanlwytho gan y carchar, gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu a’r cynllun datblygu ansawdd
- Amserlen o weithgareddau sydd wedi’u trefnu ar gyfer carcharorion
- Data Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

Dylai adran ‘Dogfennau’r Arolygiad’ yn yr YAR gynnwys:

- Templedi mewnbwn
- Yr adroddiad arolygu blaenorol
- Copi o’r arweiniad hwn
- Blaen-ganfyddiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Cwestiynau sy’n dod i’r amlwg gan yr arolygydd cofnodol
- Ffurflenni Tystiolaeth

Pan fydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn caniatáu i Estyn gysylltu â’r carchar, dylai’r arolygydd cofnodol gysylltu â’r Pennaeth Dysgu i drafod:

- a oes ystafell sylfaen ar gael, sydd ar wahân i ystafell sylfaen Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a gofyn a oes cyfleusterau lluniaeth ar gael (bydd y rhain yn elfennol – tegell a chwpanau yn unig, yn aml)
- manylion y tîm o arolygwyr, gan amlygu p’un a oes unrhyw aelod o’r tîm sydd heb gael hyfforddiant ar ddiogelwch allweddi’r carchar (Hyfforddiant Allweddi),

oherwydd bydd rhaid i'r Pennaeth Dysgu drefnu bod hyn yn digwydd pan fydd yr arolygwyr yn cyrraedd y carchar (mae'n cymryd tua 15 munud)

- cadarnhau a fydd arolygwyr yn cael eu setiau eu hunain o allweddi
- cytuno y gall arolygwyr fynd â gliniaduron i mewn i'r carchar (mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn debygol o ofyn am rifau cyfresol y cyfrifiaduron)
- mynediad i'r Pennaeth Dysgu at yr YAR
- data DPA ar berfformiad y carchar yn erbyn targedau contractau; dylai'r Pennaeth Dysgu lanlwytho'r data hwn i'r YAR
- fformat yr adroddiad hunanarfarnu; dylai'r Pennaeth Dysgu ei lanlwytho i'r YAR
- cynllun datblygu ansawdd; dylai'r Pennaeth Dysgu ei lanlwytho i'r YAR
- amserlen o weithgareddau addysg a gwaith sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- argaeledd tystiolaeth ategol, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr ac arweiniad ar sut i ddewis y sampl
- gwybodaeth am allu llythrennedd a rhifedd, o'r asesiad cychwynnol
- trefniadau i Estyn adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i dîm rheoli'r carchar neu gynrychiolwyr

Yn anaml iawn y caiff cyfleusterau parcio eu darparu mewn arolygiadau carchardai. Ni fydd modd defnyddio cyfleusterau Wi-Fi y carchar. Ni fydd arolygwyr yn gallu defnyddio offer TGCh carchardai (peiriannau argraffu wedi'u rhwydweithio, ac ati).

Fel arfer, y Pennaeth Dysgu fydd yr enwebai ond bydd angen i'r arolygydd cofnodol gadarnhau hyn, rhag ofn y bydd yn dymuno cynnig rhywun arall. Bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod y canlynol gyda'r enwebai:

- ei rôl yn ystod wythnos yr arolygiad, gan gynnwys y ffaith y bydd yn cael adborth y gallai ei rannu gyda llywodraethwr y carchar bob dydd
- a oes gan yr enwebai ymrwymiad addysgu yn ystod wythnos yr arolygiad – os oes modd, dylid cymryd unrhyw gyfrifoldeb addysgu oddi wrth yr enwebai fel y gall gyflawni ei rôl yn llawn yn ystod wythnos yr arolygiad
- y broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad

Bydd yr ACof a'r enwebai yn cytuno pryd bydd tîm Estyn yn cyrraedd y carchar.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn cysylltu â'r arolygydd cofnodol i roi manylion am yr agweddau ar ei fframwaith y mae'n dymuno i Estyn adrodd arnynt ynghyd â manylion am nifer y geiriau a ddyrennir i bob adran. Mae fersiwn nodweddiadol wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon ac mae'n cynnwys uchafswm nifer y geiriau arferol ar gyfer pob adran.

Hefyd, bydd unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan dîm ymchwil ymlaen llaw Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad yn cael eu rhannu gydag Estyn.

Gan ystyried adroddiad hunanarfarnu'r carchar ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant yr arolygiaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu. Bydd yr arolygydd cofnodol yn

ystyried profiad aelodau'r tîm o'r sector carchardai a'u gwybodaeth arbenigol (er enghraifft gwybodaeth am ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd).

Dylai'r arolygydd cofnodol gadarnhau ar ba ddyddiad y bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi angen cyfraniadau ysgrifenedig Estyn at yr adroddiad. Bydd hwn weithiau'n cael ei gynnwys yn e-bost Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n cyhoeddi'r arolygiad. Mae'n aml yn fuan iawn ar ôl i'r arolygiad ddod i ben.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn defnyddio'r wybodaeth cyn-arolygiad i lywio gweithgarwch arolygu cychwynnol y tîm arolygu. Bydd yr arolygydd cofnodol yn briffio'r tîm pan fyddant yn cyrraedd y carchar.

Bydd y tîm yn ymgynnull ac yn mynd i mewn i'r carchar gyda'i gilydd, oherwydd gall y trefniadau mynediad gymryd amser a gofyn am gofnodi gwybodaeth fiometrig fel olion bysedd arolygwyr.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu, gan gynnwys teithiau dysgu a chraffu ar waith carcharorion. Rydym yn gofyn i garchardai roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau y bwriedir eu cynnal yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Ar sail y wybodaeth sy'n dod i law, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arsylwadau dysgu ac addysgu, y teithiau dysgu a chraffu ar waith carcharorion. Bydd y sampl yn adlewyrchu ystod gwaith y carchar ac yn cynorthwyo ag ymchwilio i gwestiynau datblygol a meysydd diddordeb y mae gwaith arolygu cychwynnol a chyfredol yr arolygwyr yn eu hawgrymu.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn paratoi nodyn briffio ar gyfer y tîm, yn cynnwys amlinelliad o gynllun ar gyfer diwrnodau'r wythnos arolygu. Ar ôl ei gwblhau (efallai na fydd hyn yn bosibl tan y dydd Gwener cyn yr arolygiad), bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi ei gwestiynau sy'n dod i'r amlwg a'r nodyn briffio yn yr YAR. Bydd y CydAr yn anfon e-bost at y carchar yn rhoi gwybod bod y SCA a'r nodyn briffio ar gael yn yr YAR ar fore Llun wythnos yr arolygiad. Bydd yr arolygydd cofnodol yn anfon e-bost gyda chopïau o ddogfennau allweddol at y tîm. Dylai'r tîm lawrlwytho dogfennau allweddol, gan gynnwys eu FfF mewnbwn personol, i'w cyfrifiadur rhag ofn y ceir trafferth mynd at yr YAR yn y carchar.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cyfarfod â'r Pennaeth Dysgu ar ôl cyrraedd, gan gadarnhau'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth yn ystod yr arolygiad ac ar y diwedd. Dylai'r arolygydd cofnodol ddisgrifio'r amlinelliad o'r cynllun arolygu (efallai na chaiff ei lunio'n derfynol tan ar ôl y cyfarfod tîm), gan gynnwys arsylwadau, cyfweliadau a chraffu ar ddogfennau.

Dylai'r arolygydd cofnodol roi gwybod i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi fod y tîm yn bresennol ac ymhle bydd yr ystafell sylfaen.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cadarnhau bod aelodau'r tîm wedi lawrlwytho'u FfBau Mewnbwn personol eu hunain o'r YAR, yn unol â'r hyn a argymhellwyd.

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai’r tîm drafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad, gan ganolbwyntio ar y cwestiynau sy’n dod i’r amlwg o adroddiad hunanarfarnu’r carchar a gwybodaeth arall a gafwyd cyn yr arolygiad. Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu’r arfarniadau a wnaed gan y carchar. Dylai’r trafodaethau ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae angen i arolygwyr ei hadolygu.

Dylai arolygwyr ddechrau arsylwadau pan fydd y cyfarfod cychwynnol wedi dod i ben. Dylai’r amser rhwng 17:00 a 18:00 gael ei ddefnyddio i rannu canfyddiadau cychwynnol gyda’r tîm.

**Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu**

Yn y rhan fwyaf o garchardai, mae’r gyfundrefn yn dechrau am 8:15 am a dylai’r tîm gyfrif am hyn wrth gynllunio gweithgareddau.

Bydd y tîm yn cynllunio’r arolygiad fel y gallant fynd i’r afael â’r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu a’r cwestiynau datblygol o’r adolygiad o’r wybodaeth cyn-arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu’r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio’u barnau. Dyma’r prif fathau o dystiolaeth:

- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad a chynnydd carcharorion
- arsylwi addysgu a gweithgareddau eraill
- samplau o waith carcharorion
- barn carcharorion a staff

Bydd arsylwadau uniongyrchol o waith carcharorion yn cael eu defnyddio gan y tîm lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu barnau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith carcharorion, os bydd angen, i ymestyn eu hymchwiliad mewn agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu harfarniad o gynnydd carcharorion ac ansawdd darpariaeth y carchar. Gall hyn gynnwys teithiau dysgu, pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o ddosbarthiadau yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar ddarpariaeth y carchar, cael sgyrsiau â charcharorion dethol am eu gwaith, a chynnal trafodaethau â thiwtoriaid unigol am ddysgu’r carcharorion yn eu dosbarthiadau, a’r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion. Yn ogystal, gallant gynnal arsylwadau hwy o ystafelloedd dosbarth.

Mae llais carcharorion yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda charcharorion yn gyfle i archwilio’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’u gwaith. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwyso a mesur pa mor dda y mae’r carchar yn cefnogi carcharorion ac yn cyfrannu at eu cynnydd a’u lles.

Dylai carcharorion drefnu bod gwybodaeth ar gael i’r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan garcharorion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio ac asesiadau cychwynnol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd carcharorion er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae carcharorion yn eu cyflawni o’i gymharu â mannau cychwyn a’r ffordd y mae athrawon yn defnyddio’r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a’u gwersi.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y carchar a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod byr â'r enwebai bob dydd i gytuno ar unrhyw drefniadau newydd, cadarnhau materion arolygu, cael rhagor o wybodaeth a thrafod materion o bryder a chanfyddiadau bras sy'n dod i'r amlwg.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn defnyddio amrywiol ffurflenni i gofnodi a choladu eu canfyddiadau a'u barnau.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn bosibl yn aml oherwydd cyfyngiadau ar ddiogelwch a osodir gan yr amgylchedd. Yn yr achos hwn, dylai arolygwyr gofnodi eu canfyddiadau ar bapur a throsglwyddo nodiadau i'w systemau electronig pan fo hynny'n bosibl. Yna, dylent ddinistrio'u copïau papur.

**Cyfarfodydd tîm**

Dylid cynnal y cyfarfod tîm bob dydd o 16:30 i 18:00.

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir, dibynadwy a dilys am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn adroddiad hunanarfarnu'r carchar
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- datrys cwestiynau a materion cyn-arolygiad
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Bydd yr arolygydd cofnodol yn mynychu cyfarfodydd tîm ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod amser cinio dydd Mawrth a dydd Mercher. Yn ystod y cyfarfod dydd Mercher, bydd yr arolygydd cofnodol yn adrodd canfyddiadau Estyn sy'n dod i'r amlwg.

Bydd angen i arolygwyr gasglu pwyntiau bwled o'u canfyddiadau ynghyd yn barod ar gyfer cyfarfod tîm Estyn ar y prynhawn dydd Mercher. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd tîm a bydd yr arolygydd cofnodol yn anfon y pwyntiau bwled at Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar y nos Fercher, a bydd safoni Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi'i seilio ar y rhain.

Fore Iau, bydd angen i'r tîm gasglu ei dystiolaeth a bydd pob aelod yn paratoi barnau ysgrifenedig yn unol â'r pwyntiau bwled a gyflwynwyd eisoes i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Bydd cyfarfod tîm Estyn ddydd Iau yn safoni canfyddiadau ac yn trafod sut mae'r rhain yn perthyn i brif benawdau'r FfAC fel y gall y tîm gytuno ar farnau crynodol, cyfun ar gyfer y cwestiynau allweddol hyn.

Dylai'r ffocws mewn cyfarfodydd fod ar bwyso a mesur y cryfderau a'r meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â phob un o'r prif feysydd arolygu. Dylai'r aelod tîm sy'n gyfrifol am bob maes arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi arwain a chydlynu'r drafodaeth am ei ganfyddiadau. Mae'n bwysig llunio barnau cyfun yn y cyfarfodydd tîm.

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi gwers, dylai arolygwyr gynnal deialog broffesiynol fer gyda'r aelod staff ar y gwaith a welwyd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y carcharorion, y cynnydd a wnaed ganddynt yn ystod y wers a'r safonau a gyflawnwyd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai barnau dros dro sy'n dod yw'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth, ac y gellir diwygio'r holl farnau, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith carcharorion neu siarad â charcharorion, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o wersi/dosbarthiadau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

**Adborth ffurfiol**

Brynhawn Iau wythnos yr arolygiad, bydd tîm Estyn yn cyflwyno'i ganfyddiadau i lywodraethwyr / Cyfarwyddwr y carchar neu ei gynrychiolydd enwebedig; gallent wahodd uwch reolwyr ychwanegol i wrando ar y cyflwyniad. Bydd barnau tîm Estyn ar bob un o'r meysydd arolygu yn cael eu rhannu gyda'r carchar yn y cyfarfod adborth.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r carchar y gellir codi materion a'u trafod, gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro barnau, ond na ellir trafod y barnau eu hunain.

Yn dilyn adborth Estyn, bydd yr arolygydd cofnodol yn mynychu cyfarfod safoni Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gyflwyno canfyddiadau allweddol Estyn, a chynnig a safoni barnau yn gysylltiedig â fframwaith Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Hefyd, bydd yr arolygydd cofnodol yn rhannu'r barnau a roddodd yn gysylltiedig â meysydd arolygu Estyn. Bydd tîm llawn Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn mynychu'r cyfarfod hwn, ynghyd â Phrif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi fel arfer.

Ar ddiwrnod olaf yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn cyfarfod ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gytuno ar gyflwyno adborth yn derfynol i'r carchar yn gyfan gwbl. Yr arolygydd cofnodol yn unig fydd yn mynychu'r adborth terfynol hwn.

Mae'r holl farnau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr y carchar. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt

i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyhoeddi'r adroddiad ar ei gwefan.

**Cwynion am y dull o gynnal yr arolygiad**

Os bydd unrhyw faterion yn codi am ymddygiad tîm arolygu Estyn, yna dylai'r darparwr, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gydag arolygydd cofnodol Estyn ac arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r darparwr aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Mae materion yn aml yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y darparwr yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i ddarparwyr ynglŷn â gweithdrefnau cwyno Estyn ar wefan Estyn.

| **Ar ôl yr arolygiad** |
|---|

**Yr adroddiad arolygu**

Bydd yr arolygydd cofnodol yn casglu'r gwaith ysgrifenedig ynghyd ac yn ei olygu cyn ei anfon at arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar y dyddiad gofynnol.

Mae awdur adroddiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn debygol o ddod yn ôl ag ymholiadau am y cynnwys a chaiff y rhain eu cyfeirio at yr arolygydd cofnodol; mae cyfrifoldeb ar yr arolygydd cofnodol i ymateb ar unwaith.

Bydd Estyn yn ysgrifennu at lywodraethwr neu gyfarwyddwr y carchar, yn amlinellu prif ganfyddiadau tîm arolygu Estyn ac yn cyflwyno unrhyw argymhellion a rannodd gyda'r carchar yn ystod adborth Estyn. Bydd y llythyr hwn yn adlewyrchu'r canfyddiadau y mae Estyn yn eu rhoi i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn uniongyrchol. Hefyd, bydd yn cynnwys y barnau sy'n gysylltiedig â FfAC Estyn, y bydd arolygwyr wedi cytuno arnynt yn ystod yr arolygiad, a'r argymhellion a rannodd arolygwyr Estyn gyda llywodraethwr neu gyfarwyddwr y carchar.

Byddwn yn gohebu'n ddwyieithog lle mae carchardai wedi gofyn am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Rydym yn seilio strwythur y prif ganfyddiadau ar fframwaith arolygu cyffredin a bydd y llythyr yn adrodd prif ganfyddiadau Estyn yn y meysydd canlynol:

| **Prif ganfyddiadau**<br><br>1 Safonau<br>2 Lles ac agweddau at ddysgu<br>3 Addysgu a phrofiadau dysgu<br>4 Gofal, cymorth ac arweiniad<br>5 Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Wrth arolygu carchardai, bydd Estyn yn cyfrannu at adroddiad terfynol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a bydd yn rhan o drefniadau sicrhau ansawdd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae Estyn wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gydag arweinwyr y carchar yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm, a barnau ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Dylai carchardai godi unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd Estyn yn ystod yr arolygiad cyn gynted â phosibl gyda'r arolygydd cofnodol neu arolygydd arweiniol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

## Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd ar gyfer gweithgareddau addysg, medrau a gwaith

Mae gofynion adrodd arferol Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi'u hamlinellu isod. Ar adegau, gall Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ofyn i Estyn ystyried meysydd gwaith ychwanegol a bydd yn rhoi gwybod i'r arolygydd cofnodol am hyn yn ei friff ar yr arolygiad.

Gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith

Mae disgwyl i bob carcharor gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, medrau a gwaith sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd adeg eu rhyddhau, a chânt eu galluogi i gymryd rhan yn y rhain. Mae digon o leoedd addysg, medrau a gwaith addas i fodloni anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

| Disgwyliad | Dangosyddion |
|---|---|
| **Safonau** | *Mae fframwaith arolygu cyffredin (FfAC) ac arweiniad arolygu Estyn yn amlinellu'r prif feini prawf ar gyfer barnu safonau, gan ystyried:*<br>• *safonau a chynnydd cyffredinol*<br>• *safonau a chynnydd grwpiau penodol*<br>• *safonau a chynnydd mewn medrau*<br>***Disgwyliad: Mae carcharorion yn cyflawni ac yn cyrraedd y safonau a'r deilliannau gorau posibl yn eu haddysg, gwaith a gweithgareddau.*** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r safonau a gyflawnir gan garcharorion yn gyffredinol yn briodol i'w galluoedd.<br><br>Mae carcharorion yn gwneud cynnydd amserol, da tuag at gyflawni cymwysterau priodol a nodau dysgu heriol. |
| | Mae carcharorion yn adalw dysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth dealltwriaeth a medrau newydd ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd. |
| | Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar wahanol lefelau, dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn gwneud cynnydd da. |
| | Mae carcharorion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau unigol sydd wedi'u diffinio'n dda, sy'n ystyried eu hanghenion a'u galluoedd yn dda. |
| | Mae carcharorion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant, o ystyried eu mannau cychwyn a'u gallu, gan gynnwys y rhai â medrau galwedigaethol neu gyflawniadau academaidd mwy datblygedig, gan eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent. |
| | Mae carcharorion yn datblygu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu (yn Gymraeg/Saesneg), rhifedd a TGCh sy'n eu paratoi i lwyddo a gwneud cynnydd yn eu gweithgareddau addysg, medrau a gwaith, a chyrraedd eu nodau o ran dilyniant. |
| | Mae carcharorion yn datblygu'r medrau y mae arnynt eu hangen i allu camu ymlaen yn effeithiol i gam nesaf eu haddysg, cyflogaeth, hunangyflogaeth neu hyfforddiant yn y carchar, neu'r tu allan i'r carchar pan gânt eu rhyddhau. |
| | Mae carcharorion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg ac mae'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn datblygu'u defnydd o'r iaith mewn addysg, gwaith a gweithgareddau. |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | *Mae FfAC ac arweiniad arolygu Estyn yn amlinellu'r prif feini prawf ar gyfer barnu lles carcharorion a'u hagweddau at ddysgu, gan ystyried:*<br><br>• *lles*<br>• *agweddau at ddysgu*<br><br>***Disgwyliad: Mae carcharorion yn teimlo'n ddiogel mewn addysg, gwaith a gweithgareddau, ac yn datblygu ymddygiadau sy'n eu helpu i leihau aildroseddu*** |
| | Mae carcharorion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol yn ystod eu haddysg, gwaith a gweithgareddau. |
| | Mae carcharorion yn gwybod sut gallant amddiffyn eu hunain rhag aflonyddu, gwahaniaethu ac eithafiaeth. |

| | |
|---|---|
| | Mae carcharorion yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau sy'n eu symbylu ac yn gwella'u hymwybyddiaeth o sut i leihau ymddygiadau aildroseddu (er enghraifft trwy gyrsiau rheolaeth ariannol, datblygiad personol neu gyflogadwyedd). |
| | Mae carcharorion yn datblygu medrau cyflogadwyedd, gan gynnwys hyder, gwydnwch a gallu i ymhél â phrofiadau, syniadau a phobl newydd ac anghyfarwydd. |
| | Mae carcharorion yn ymddiddori ac yn ymfalchïo yn eu gwaith, eu gallu i barhau i ganolbwyntio ac osgoi pethau sy'n tynnu'u sylw. |
| | Mae carcharorion yn hoelio'u sylw ar dasgau ac yn eu cwblhau. |
| | Mae carcharorion yn dyfalbarhau ac yn cadw at eu pwrpas pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n ceisio atebion eraill pan fydd eu dull o ymdrin â phroblem yn aflwyddiannus y tro cyntaf. |
| | Mae carcharorion yn gallu gweithio mewn sawl ffordd, er enghraifft yn annibynnol, mewn grwpiau bychain ac mewn dosbarthiadau llawn. |
| | Mae carcharorion yn dangos medrau cryf wrth weithio mewn tîm, gan gynnwys parch tuag at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu drwy beidio â chynhyrfu pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw. |
| | Mae carcharorion wedi'u symbylu'n dda i fynychu eu sesiynau dysgu a'u gweithgareddau gwaith yn rheolaidd ac yn brydlon, a dangosant agwedd gadarnhaol at ddatblygu'u medrau. |
| | Mae carcharorion yn deall sut y gallant wella'u hiechyd corfforol ac emosiynol trwy wneud dewisiadau am y pethau maent yn eu bwyta a'u hyfed, yn ogystal â thrwy'r gweithgareddau corfforol, addysgol a gwaith a gyflawnant. |
| | Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae ymddygiad carcharorion mewn lleoliadau addysg a gwaith yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau ymddygiad a osodir gan y carchar. |
| | Mae carcharorion yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y gallant osgoi aildroseddu pan gânt eu rhyddhau a datblygant strategaethau i leihau ymddygiadau aildroseddu. |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu:** | *Mae FfAC ac arweiniad arolygu Estyn yn amlinellu'r prif feini prawf ar gyfer barnu ansawdd addysgu a phrofiadau dysgu, gan ystyried:*<br><br>• *ansawdd yr addysgu*<br>• *ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm*<br>• *darpariaeth ar gyfer medrau* |

| | |
|---|---|
| | ***Disgwyliad: Mae carcharorion yn elwa o addysgu o ansawdd da ac ystod berthnasol o brofiadau dysgu sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau o'r carchar*** |
| | Mae adborth llafar ac ysgrifennu gan staff yn helpu carcharorion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. |
| | Mae carcharorion yn asesu eu perfformiad eu hunain yn effeithiol a pherfformiad carcharorion eraill, lle y bo'n briodol. |
| | Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o asesiadau dilys, cywir a dibynadwy o anghenion, medrau a gwaith carcharorion i lywio cynllunio addysg, gwaith neu weithgareddau ganddynt yn y dyfodol. |
| | Mae athrawon yn gosod targedau sy'n ysbrydoli er mwyn herio carcharorion i ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth. |
| | Mae athrawon yn olrhain a monitro cynnydd carcharorion yn glir ac yn effeithiol, gan wneud defnydd effeithiol o ddeilliannau olrhain a monitro i amlygu materion perthnasol ac ymateb yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu cymorth a her briodol, defnyddio strategaethau ymyrryd, a mentora neu annog unigolion neu grwpiau. |
| | Mae staff yn gymwys iawn ac mae ganddynt wybodaeth dda am eu pwnc a phrofiad sy'n berthnasol i'w rôl, i adlewyrchu arferion gorau'r diwydiant a bodloni anghenion carcharorion a chyflogwyr. |
| | Mae athrawon yn defnyddio mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig yn effeithiol i roi arweiniad a help unigol â ffocws i garcharorion |
| | Mae staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion cymorth carcharorion trwy asesu cychwynnol effeithiol ac yn darparu cymorth effeithiol, o ansawdd uchel, i'w helpu i gyflawni nodau heriol. |
| | Mae'r cwricwlwm ac ystod yr addysg, gwaith a gweithgareddau, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod carcharorion yn caffael y medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd a TGCh angenrheidiol, yn bodloni anghenion pob carcharor er mwyn eu paratoi ar gyfer y farchnad lafur neu symud ymlaen i gyfleoedd pan fyddant yn cael eu rhyddhau. |
| | Mae athrawon yn helpu carcharorion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. |
| | Mae athrawon yn herio ystrydebau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau carcharorion. |

| | |
|---|---|
| | Mae staff yn rhoi sylw a ffocws clir mewn addysg, gwaith a gweithgareddau i symbylu a chefnogi carcharorion i ddatblygu eu medrau Cymraeg/Saesneg, mathemateg a chyflogadwyedd, er mwyn cyflawni eu nodau dysgu a'u cynlluniau ailsefydlu |
| **Gofal, Cymorth ac Arweiniad:** | *Mae FfAC ac arweiniad arolygu Estyn yn amlinellu'r prif feini prawf ar gyfer barnu effeithiolrwydd gofal, cymorth ac arweiniad, gan ystyried:*<br>• *olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu*<br>• *dewisiadau iach a dinasyddiaeth weithgar*<br>• *addysg ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol*<br>• *diogelu*<br>***Disgwyliad: Mae darparu gofal, cymorth ac arweiniad yn helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau a chynllunio'u cynnydd yn llwyddiannus*** |
| | Mae carcharorion yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i oresgyn rhwystrau rhag dysgu neu gynnydd. |
| | Mae staff yn olrhain effaith y cymorth a roddant i garcharorion er mwyn nodi ei fod yn effeithiol wrth eu helpu i wneud cynnydd da. |
| | Mae carcharorion yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hygyrch, o ansawdd da, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio'u camau dilyniant. |
| | Darperir arweiniad a chyngor diduedd i garcharorion i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus wrth gynllunio'u dysgu a'u gweithgareddau tra byddant yn y carchar, fel y gallant wella'u cynllunio ar gyfer dilyniant ac ailsefydlu. |
| | Mae cynlluniau dysgu carcharorion wedi'u cysylltu â chynlluniau dedfryd carcharorion ac yn rhoi ystyriaeth dda iddynt. |
| | Mae staff yn defnyddio rhyddhau ar drwydded dros dro yn effeithiol ac yn briodol i wella medrau cyflogaeth neu hyfforddiant carcharorion a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau. |
| | Mae staff yn annog ac yn cefnogi carcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau (gan gynnwys trwy drefnu mynediad at ffyrdd modern o chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt drwy'r rhyngrwyd) er mwyn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a gwaith addas adeg eu rhyddhau. |
| | Mae gan staff systemau da ar waith i gofnodi a monitro ymddygiad carcharorion. |
| | Caiff medrau carcharorion yn gysylltiedig â gwaith eu cydnabod a'u cofnodi'n effeithiol |

| | |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | *Mae FfAC ac arweiniad arolygu Estyn yn amlinellu'r prif feini prawf ar gyfer barnu effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth gweithgareddau addysg, medrau a gwaith, gan ystyried:*<br><br>• *ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol*<br>• *prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant*<br>• *dysgu proffesiynol*<br>• *defnyddio adnoddau*<br><br>***Disgwyliad: Mae arweinyddiaeth a rheolaeth addysg, medrau a gweithgareddau yn gwella deilliannau y mae carcharorion yn eu cyflawni.*** |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth, nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion carcharorion, lleihau aildroseddu a hwyluso ailintegreiddio carcharorion i gymdeithas. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda wrth gynllunio'r gweithgareddau addysg a gwaith sydd ar gael i garcharorion. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu dulliau clir o ddadansoddi effaith darpariaeth ar ddeilliannau carcharorion ac ar leihau ymddygiad troseddu |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro dilyniant a chyrchfannau carcharorion sy'n gadael y carchar i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a defnyddiant y data hwn wrth gynllunio'u darpariaeth. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn dadansoddi'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i lywio cynllunio. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, carcharorion a nhw'u hunain. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ddarpariaeth a chydweithio effeithiol rhwng staff a chyda darparwyr eraill. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ac yn cydweithio â darparwyr eraill i gyflawni gwelliannau yn y system addysg yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i feithrin ei gallu i wella'n barhaus a gwella ailintegreiddio carcharorion i gymdeithas. |

| | |
|---|---|
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod darpariaeth ddigonol o addysg, medrau a gwaith priodol ar gyfer poblogaeth gyfan y carchar a bod y ddarpariaeth yn arwain at achrediad, lle bynnag y bo'n bosibl. |
| | Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod carcharorion yn cael eu dyrannu i weithgareddau yn brydlon, yn eu mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd sesiynau mewn pryd. |
| | Mae gan arweinwyr a rheolwyr drefniadau effeithiol i gynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad, a sicrhau bod yr ymroddiad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar addysg, gwaith a gweithgareddau carcharorion. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi arfer dda yn y ddarpariaeth ac yn ei rhannu â staff. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli perfformiad staff yn dda er mwyn helpu staff i wella'u harfer, gan fynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol lle bo'r angen. |
| | Mae gan arweinwyr a rheolwyr strategaeth glir a mesuradwy i wella llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol carcharorion. |
| | Mae ansawdd cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cysylltu'n dda â chanfyddiadau hunanarfarniad y carchar. |
| | Mae systemau effeithiol i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu ar gyfer gwella mewn amserlenni penodedig a realistig, ac yn neilltuo cyfrifoldeb am gyflawni'r rhain. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro ac yn dadansoddi cynnydd carcharorion, gan gynnwys cynnydd grwpiau penodol neu grwpiau agored i niwed, mewn addysg. |
| | Mae cyfraddau tâl yn annog carcharorion i gymryd rhan mewn addysg a gwneud cynnydd. |
| | Mae gan arweinwyr a rheolwyr strategaeth glir i hybu medrau Cymraeg a'r dimensiwn Cymraeg mewn gweithgareddau ar gyfer carcharorion ac mae'r strategaeth yn annog pob carcharor, yn enwedig siaradwyr Cymraeg, i ddefnyddio a datblygu'u medrau Cymraeg. |
| | Mae arweinwyr a rheolwyr yn trefnu addysg, gwaith a gweithgareddau i sicrhau bod carcharorion yn cael eu cadw'n brysur ac yn ddiwyd yn ystod sesiynau. |

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn amlinellu'r modd y dylai arolygwyr ymdrin ag adrannau amrywiol yr adroddiad arolygu a'r hyn y mae angen iddynt ei ystyried wrth arfarnu pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin.

**Y Fframwaith Arolygu Cyffredin**

Mae pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'u hamlinellu isod.

Mae pob maes arolygu yn cynnwys gofynion adrodd, sef yr agweddau y mae'n rhaid i'r tîm arolygu ymdrin â nhw wrth adrodd ar bob carchar.

**Y Fframwaith Arolygu Cyffredin**

**1 – Safonau**

1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

**Disgrifwyr barn**

Bydd y tîm arolygu yn rhoi barn ar gyfer pob maes arolygu, gan ddefnyddio'r raddfa bedwar pwynt isod.

**Rhagorol** – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

**Da** – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau

**Digonol ac angen gwelliant** – Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella

**Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Mae pum maes arolygu Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn wedi'u hamlinellu isod. Trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob un o Ddisgwyliadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, dylai arolygwyr Estyn lunio barn ar gyfer pob un o benawdau meysydd arolygu'r FfAC.

**1 – Safonau**

**2 – Lles ac agweddau at ddysgu**

**3 – Addysgu a phrofiadau dysgu**

**4 – Gofal, cymorth ac arweiniad**

**5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Bydd arolygwyr yn llunio'u barnau drwy ystyried a phwyso a mesur pwysigrwydd y cryfderau a'r gwendidau ym mhob maes arolygu. Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu yn adlewyrchu a chefnogi'r farn berthnasol.

Daw gwendidau'n bwysig pan fyddant yn cael effaith arwyddocaol ar safonau a/neu les. Bydd cryfderau yn aml i'w gweld pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella, y farn briodol fel arfer fydd 'Digonol ac angen gwelliant', neu 'Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'.

**Argymhellion**

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r carchar o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn blaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau yn y meysydd arolygu a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y carchar weithredu arni.

## Ffocws thematig

Gall Estyn ddewis nifer fach o themâu ychwanegol i ganolbwyntio arnynt bob blwyddyn.  Bydd y themâu a ddewisir yn helpu Estyn i gasglu gwybodaeth am agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Bydd Estyn yn defnyddio'r wybodaeth i ategu ei waith cylch gwaith a llywio canfyddiadau Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd.

Bydd y tîm arolygu'n canolbwyntio ar un thema ychwanegol yn unig ar bob arolygiad. Ni fydd adran ar wahân o'r adroddiad na barn ar wahân ar y ffocws thematig penodol yn yr adroddiad cyhoeddedig.

Gallai'r tîm arolygu gasglu tystiolaeth ar gyfer y thema ychwanegol mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu ar y thema a ddewisir.  Gallai gynnwys holiadur neu gyfweliad ag aelod penodol o staff neu graffu ar ddogfennau neu waith carcharorion, neu gyfuniad o ddulliau.  Y nod yw gwneud casglu tystiolaeth mor gymesur ac mor hylaw ag y bo modd i'r carchar a'r tîm arolygu.